**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Datblygu ac Adfywio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 5 Medi 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | E W Fitzgerald | L James |
| D H Jenkins | M H Jones | S M Jones |
| J W Jones | M S Tribe | T M White |

**Aelod(au) Cabinet**

| | |
|---|---|
| Robert Francis-Davies | Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth |
| Rob Stewart | Aelod y Cabinet dros yr Economi, Strategaeth a Chyllid |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Phil Homes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Brij Madahar | Arweinydd y Tîm Craffu |
| Huw Mowbray | Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol |
| Rachel Percival | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P R Hood-Williams, M W Locke a/ac W G Thomas

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau

## 2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 3 Cofnodion

Ystyriodd y panel gofnodion o gyfarfodydd blaenorol a chytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2022 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Nodwyd yr ymatebion i'r ymholiadau a godwyd ar 8 Mawrth 2022 hefyd.

4 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd.

5 **Rôl y Panel Perfformiad**

Ystyriodd y Panel Rôl y Panel Perfformiad fel un o'r chwe Phanel Perfformiad a sefydlwyd gan Bwyllgor y Rhaglen Graffu yn benodol i edrych ar waith Datblygu ac Adfywio'r cyngor. Dywedodd y Cadeirydd y gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i aelodau newydd o'r Panel i ddeall sut mae'r Panel yn gweithio.

6 **Adroddiad Monitro Rhaglenni/Prosiectau Adfywio**

Cyflwynwyd yr adroddiad monitro rheolaidd diweddaraf ar y rhaglen / prosiectau adfywio i'r Panel, ar gyfer unrhyw sylwadau / safbwyntiau ar gynnydd a chyflawniadau. Rhoddodd Huw Mowbray, Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol, ddiweddariadau perthnasol am y canlynol:

<u>Bae Copr:</u>
- Mae'r rhan breswyl o Fae Copr bellach wedi'i chwblhau ac mae preswylwyr bellach yn byw yno.
- Mae presenoldeb Ceidwaid Canol y Ddinas yno wedi cynyddu ac maent hefyd yn gallu defnyddio teledu cylch cyfyng. Bydd heddlu hefyd yn trefnu adnoddau ychwanegol ar gyfer canol y ddinas o fis Hydref.

<u>Adfywio Abertawe:</u>
- Cyflwynwyd cais Codi'r Gwastad ar gyfer canol y ddinas y bwriedir iddo gael ei gymeradwyo ym mis Hydref.
- Caiff Cam 1 (dichonoldeb) ei gwblhau ar gyfer 3 safle ym mis Medi/Hydref 2022. Mae'r 3 safle hwn yng ngogledd Abertawe Ganolog (ail gam yr arena), y Ganolfan Ddinesig a St Thomas. Byddwn hefyd yn edrych ar yr Hafod unwaith y bydd cais canol y ddinas wedi symud ymlaen i gam 2 (dylunio a chyfreithiol).

<u>71/72 Ffordd y Brenin:</u>
- Mae'r prosiect yn symud ymlaen ac ar y trywydd iawn i'w gwblhau ym mis Hydref 2023.
- Caiff y prif denant cyntaf (25,000 troedfedd sgwâr) ei gyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf.

<u>Wind Street:</u>
- Mae Wind Street wedi'i chwblhau i raddau helaeth heblaw am ambell rwystr bach. Mae Tîm Rheoli Canol y Ddinas yn trafod â thenantiaid Wind Street ynghylch eu celfi stryd.

<u>Datblygu a Pherygl o Lifogydd TAN15:</u>

- Mae'r cyngor wedi bod yn cyflawni Asesiadau Canlyniadau Llifogydd i edrych ar yr hyn y mae angen ei newid. Mae Cyngor Abertawe wedi cyfrannu gyda chynghorau eraill i awgrymu rhai newidiadau i'r ddogfen TAN15 maes o law.

<u>Sgwâr y Castell:</u>
- Cyflwynwyd cais cynllunio ar 2 Awst 2022. Mae'r cyngor bellach yn edrych ar y broses dendro. O'r tendr, caiff contractwr ei gyflogi i gwblhau gwaith tirlunio sylweddol gyda pheth gwaith i'r adeiladau. Ariennir y cynllun hwn gan y cyngor gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru.

<u>Strategaeth Ddigidol a Datblygu'r Cynllun:</u>
- Mae oedi gyda'r ganolfan ddata newydd o ganlyniad i broblemau adnoddau a llwyth gwaith.

<u>Hwb Cymunedol:</u>
- Cwblhawyd y broses dendro ar gyfer y datblygiad hwn a rhoddwyd y contract i Keir. Byddwn bellach yn canolbwyntio ar ddarpariaeth.

<u>Symud y Ganolfan Ddinesig</u>
- Gobeithir cwblhau'r datblygiad yn ystod gwanwyn 2025.
- Oherwydd y cynnydd yn nifer y staff dros y 2 flynedd ddiwethaf bydd angen 2 fetr sgwâr o le ychwanegol yn adeilad newydd Gogledd Abertawe Ganolog.
- Rhagwelwyd y byddai ystafell gyfrifiaduron Neuadd y Ddinas yn cael ei chwblhau ym mis Mawrth 2023 ond mae amheuaeth ynghylch hyn yn awr. Bydd effaith yr oedi hefyd yn effeithio ar ddatgomisiynu'r Ganolfan Ddinesig.
- Ni chaiff y Ganolfan Ddinesig ei dymchwel a bydd yn seiliedig ar ddatblygiad presennol yn Plymouth o'r enw Royal William Yard. Bydd y safle'n un defnydd cymysg a fydd yn cynnwys gwestai, manwerthu, preswyl a hamdden.

<u>Prosiect Skyline:</u>
- Mae'r prosiect hwn yn symud ymlaen yn gyflym ac mae 2 o'r 3 gofyniad crynhoi tir wedi'u cwblhau.
- Mae Skyline wedi sicrhau caniatâd y bwrdd i ddweud wrth dîm technegol i symud y prosiect yn ei flaen.

<u>Y Fargen Ddinesig:</u>
- Caiff adolygiad sicrwydd Gateway Llywodraeth Cymru ei gynnal ym mis Tachwedd.
- Diweddarwyd achos busnes y Fargen Ddinesig i adlewyrchu'r cynnydd a wnaed. Cyflwynir hyn i Lywodraeth Cymru dros yr wythnosau nesaf.

<u>Pier y Gorllewin/Bae Abertawe:</u>
- Ceisiwyd cyngor ymgynghoriaeth arbenigol i archwilio'r difrod a wnaed i'r cynefin ac i wneud argymhellion priodol ar opsiynau lliniaru a gorfodi.

<u>Benthyciad Trawsnewid Trefi:</u>
- Mae cais am gytundeb mewn egwyddor i ddefnyddio benthyciad ariannol ar gyfer gwesty ar safle'r arena yn cael ei ystyried gyda Llywodraeth Cymru.

<u>Pontŵn yn y Gwaith Copr:</u>

- Paratowyd dogfennau tendro ar gyfer caffael cyflenwi a gosod y pontŵn a ddisgwylir erbyn 31 Awst. Rhaid bod caniatâd cynllunio'n cael ei roi cyn penodi cyflenwr.
- Rhagwelir y bydd y pwyllgor cynllunio'n penderfynu ar gynllunio ym mis Hydref 2022.

<u>Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Ffordd y Brenin:</u>

- Mae cynllun busnes diweddaredig yn cael ei baratoi ar gyfer Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gyfer mis Mawrth 2023.

<u>Ailddatblygu Pwerdy Gwaith Copr yr Hafod:</u>

- Mae'r gwaith yn y Pwerdy yn dod i ben a bydd y broses o drosglwyddo i Penderyn Whisky yn digwydd yn syth gyda'r costau cynhyrchiu'n uwch o lawr na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol.

**Cytunwyd** ar y canlynol**:**

1) Trefnir trafodaeth a fydd yn canolbwyntio ar fanylion datblygiad Sgwâr y Castell ar gyfer cyfarfod y Panel yn y dyfodol.
2) Gofynnir i swyddog(ion) arweiniol perthnasol am wybodaeth ynghylch yr oedi i symud y Ganolfan Ddata i Neuadd y Ddinas a'r goblygiadau ar gyfer gwasanaethau digidol y cyngor.

## 7 Cynllun Gwaith Drafft 2022/23

Nododd y Panel ddyddiadau/amseroedd cyfarfodydd y dyfodol, a fyddai'n cael eu cynnal bob deufis, ac ystyriwyd cynllun drafft ar gyfer y cyfarfodydd hyn. Byddai adroddiad y Rhaglen Adfywio/Monitro Prosiectau yn eitem sefydlog ar bob agenda gan adael lle ar gyfer trafodaeth sy'n canolbwyntio ar bynciau o ddiddordeb a phryder penodol.

**Cytunwyd** ar y canlynol**:**

1) Caiff y cynllun gwaith drafft ar gyfer 2022/23 ei dderbyn;
2) Byddai'r cyfarfod nesaf yn canolbwyntio ar Fanwerthu/Datblygiad yng nghanol y ddinas;
3) Trefnir trafodaeth ar gynnydd go ran Datblygiadau'r Blaendraeth/Strategaeth Bae Abertawe a Chynllun Rheoli Cyrchfannau, mewn perthynas â Thwristiaeth a Hamdden ar gyfer cyfarfod y Panel ym mis Ionawr; a
4) Bydd y Panel yn ailedrych ar brosiectau, 12 mis ar ôl eu cwblhau, i ystyried eu heffeithlonrwydd a'u llwyddiant, efallai gyda sesiwn gychwynnol ym mis Gorffennaf 2023 a ddylai gynnwys myfyrio ar Arena Abertawe.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.18am

**Cadeirydd**